# ejhales

AR OSOD


AR GYFARWYDDIADAU
CYNGOR CAERDYDD

CARDIFF
CAERDYDD

## HEN GLWB BOWLIO
## CYRTIAU TENIS A GAREJYS YN:
## CAEAU LLANDAF
## CAERDYDD
## CF11 9LB

**YNGHYD Â CHYNWYSYDDION SYDD DROS BEN**

**TENDRAU ANFFURFIOL I DDOD I LAW ERBYN DIWEDD Y DIWRNOD BUSNES DDYDD GWENER 8 GORFFENNAF 2022**





029 2037 8844 • www.ejhales.co.uk @ej_hales 28 Plas Windsor • Caerdydd • CF10

## LLEOLIAD

Mae'r safle wedi'i leoli yng Nghaeau Llandaf a leolir i'r gogledd-orllewin o Ganol Dinas Caerdydd. Ar hyn o bryd mae'r caeau'n darparu tir parc agored, caeau criced a chyrtiau tenis ac yn ffinio â rhandiroedd sydd yno eisoes.

Mae'r ardal yn elwa o sawl maes parcio talu ac arddangos. Mae hefyd yn cael ei wasanaethu gan orsafoedd rheilffordd cyfagos ac mae'n agos at arosfannau bysiau.

## DISGRIFIAD

Mae'r eiddo'n cynnwys Hen Bafiliwn Bowlio, lawnt fowlio, 10 cwrt tenis graean a garej ar wahân gydag amwynder cyfagos sy'n ardal rhannol laswelltog a graeanog.

## LLETY

**A) Hen Glwb Bowlio**

Mae hen Bafiliwn Bowlio Caeau Llandaf yn cynnwys y defnyddiau canlynol gyda'r arwynebeddau mewnol gros cysylltiedig: -

| | | |
|---|---|---|
| Ystafell Newid | 320 troedfedd sgwâr | 29.7 metr sgwâr |
| Ystafell Newid | 220 troedfedd sgwâr | 20.4 metr sgwâr |
| Neuadd | 547 troedfedd sgwâr | 50.8 metr sgwâr |
| WC Dynion | 164 troedfedd sgwâr | 15.2 metr sgwâr |
| WC Merched | 158 troedfedd sgwâr | 14.7 metr sgwâr |
| Swyddfa | 147 troedfedd sgwâr | 13.7 metr sgwâr |
| Storfa | 57 troedfedd sgwâr | 5.3 metr sgwâr |

Yr hen Lawnt Fowlio – 3,928 metr sgwâr

**B) Cyrtiau Tenis**

10 cwrt tenis wyneb caled caeedig gyda ffensys i;r ffin – 6,223 metr sgwâr

**C) Garejys**

Teras a adeiladwyd o frics - 973 metr sgwâr

## CYNNIG

Rydym yn gwahodd datganiadau o ddiddordeb at ddibenion chwaraeon a chymunedol. Mae'r safle ar gael yn ei gyfanrwydd neu mewn gwahanol lotiau o fewn A, B ac C, yn amodol ar gynllunio ac ymgynghori mewnol gan y Cyngor.

Mae'r Cyngor yn barod i gynnig telerau hyblyg i'r parti newydd ond ar sail lesddaliad.

Dylai unrhyw gynigion a gyflwynir ddarparu gwybodaeth lawn am sail gyfreithiol y meddiannaeth a'r arian sy'n gysylltiedig ag ef.

## CYNLLUNIO

Mae gan yr eiddo ganiatâd cynllunio ar gyfer ei ddefnydd blaenorol felly bydd unrhyw ddefnyddiau amgen yn amodol ar gais a chaniatâd cynllunio newydd ac unrhyw ymgynghoriadau statudol eraill y gallai fod angen eu cynnal.

## CYFRADDAU

Bydd unrhyw ddefnydd arall yn arwain at ailasesiad o'r cyfraddau a fydd, at ddibenion egluro, yn gyfrifoldeb ar ysgwyddau unrhyw feddiannydd newydd.

## EPC

Mae copi o'r Dystysgrif Perfformiad Ynni ar gael ar gais.

## TAW

Mae'r holl ffigurau a ddyfynnir yn gwbl gyfyngedig i TAW lle bo hynny'n berthnasol.

## RHEOLIADAU GWYNGALCHU ARIAN

Fel rhan o'n rhwymedigaethau o dan Reoliadau Gwyngalchu Arian y DU 2017, bydd EJ Hales yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw denant / prynwr ddarparu prawf adnabod ynghyd ag unrhyw ddogfennau gofynnol eraill.

Nid yw E J Hales na'r Gwerthwr yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw wall, camddatganiad neu hepgoriad yn y manylion hyn. Mae'r mesuriadau'n fras ac yn ganllaw yn unig. Nid yw'r manylion hyn gyfystyr ag unrhyw gynnig na chontract ac nid oes gan E J Hales nac unrhyw un yn eu cyflogaeth unrhyw awdurdod i wneud unrhyw gynrychiolaeth neu warant sydd ynghlwm â'r eiddo.

## Y BROSES DENDRO




Ar gyfarwyddyd gan Gyngor Caerdydd, gofynnir am ddatganiadau o ddiddordeb drwy Broses Dendro Anffurfiol heb fod yn hwyrach na diwedd y diwrnod busnes Ddydd Gwener 8 Gorffennaf 2022.

Mae'n ofynnol i bob cynnig gael ei gyflwyno i'r cyswllt isod, naill ai drwy'r post neu drwy e-bost.

Owen Cahill
EJ Hales
28 Plas Windsor
Caerdydd
CF10 3SG
owen@ejhales.co.uk

Dylai'r cynnig gynnwys:-



1 Ardal y safle sydd o ddiddordeb (naill ai'n llawn neu'n rhannol)

2 Enw a chyfeiriad llawn y darpar denant.

3 Defnydd / defnyddiau arfaethedig.

4 Profiad cefndir.

5 Cynllun Busnes (os yw ar gael).

6 Strwythur prydles arfaethedig.

7 Rhent arfaethedig neu rent tir.

8 Cymhelliant arfaethedig os oes angen (rhydd o rent yn unig).

9 Manylion llawn y gwaith arfaethedig ar y safle a'r mannau allanol.

10 Manylion llawn unrhyw amodau.

11 Cyllid.

12 Llinellau amser dangosol.

## YMWELD

Dim ond drwy apwyntiad drwy'r asiantau gosod, E J Hales, cysylltwch â:
**Phillip Morris** • Ffôn: **07779 666210** • E-bost: **pvm@ejhales.co.uk**
**Owen Cahill** • Ffôn: **07824 638338** • E-bost: **owen@ejhales.co.uk**

## CYNWYSYDDION SYDD DROS BEN

Rydym hefyd yn gwahodd cynigion ar gyfer prynu gynwysyddion sydd dros ben.

Mae'r rhain yn ymestyn i ardal allanol gros fras o 1920 troedfedd sgwâr / 178 metr sgwâr.

Byddai'r cynwysyddion yn cael eu cymryd yn eu cyflwr presennol.

Bydd y Cyngor yn datgysylltu'r cynwysyddion yn eu lleoliad presennol er mwyn sicrhau eu bod yn barod i gael eu symud.

Bydd y gost o symud ac ailgysylltu'r cynwysyddion gyda'r cynigydd.

Ni all y Cyngor ddilysu'r cyflwr ac felly byddai'r risg yn cael ei ysgwyddo gan unrhyw barti a fyddai'n cynnig.




#



## Y BROSES DENDRO

Ar gyfarwyddyd Cyngor Caerdydd, gofynnir am ddatganiadau o ddiddordeb drwy Broses Dendro Anffurfiol heb fod yn hwyrach na diwedd y diwrnod busnes Ddydd Gwener 8 Gorffennaf 2022.

Mae'n ofynnol i bob cynnig gael ei gyflwyno i'r cyswllt isod, naill ai drwy'r post neu drwy e-bost.

Owen Cahill
EJ Hales
28 Plas Windsor
Caerdydd
CF10 3SG
owen@ejhales.co.uk

Dylai unrhyw gynnig gynnwys:-

- Nifer y cynwysyddion sydd eu hangen.
- Enw a chyfeiriad llawn y sawl sy'n cynnig.
- Cadarnhad o'r defnydd arfaethedig.
- Cadarnhad o'r pris prynu.